

Cofion

- Anfonwn ein cofion at Glenys Jones (Llanefydd) sy'n parhau yn Ysbyty Rhuthun, er yn gobeithio cael dod adref yn fuan. Mae'n dda cael adrodd fod Trefor Wynne (Henllan) wedi dod adref o'r ysbyty yn dilyn ei lawdriniaeth. Hyderwn y bydd y ddau yn parhau i gryfhau bob dydd, ac y byddant yn adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.
- Mae eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn hefyd. Cyflwynwn hwythau i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Parhawn i gofio hefyd am yr holl deuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu.

Penwythnos plant Gofalaeth Bro Aled (8–12 oed) yng Ngholeg y Bala

Os nad ydych eisoes wedi rhoi eich enw, cofiwch bod angen i chi archebu lle **ERBYN YFORY – Dydd Llun (Ionawr 26ain)** os ydych am dreulio'r penwythnos cyntaf yn Chwefror (6ed–8fed) yng Ngholeg y Bala. Bydd angen i chi anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Cysylltwch â Rhodri i gael ffurflen neu fwy o fanylion.

I ddod

- **PENWYTHNOS IEUENCTID** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 20fed–22ain.
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 2il, ac Ebrill 2il – 6ed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 222 0201 / www.wordaliveevent.org
- **LLANW** – Mae'r amser wedi dod i archebu lle yng ngŵyl Gristnogol Llanw – cyfle i'r teulu cyfan ddathlu'r atgyfodiad – yng Nghricieth rhwng Ebrill 6ed–10fed. Y siaradwr yn oedfaon y bore fydd Dr Rhodri Glyn, a bydd siaradwyr gwahanol yn arwain oedfaon yr hwyr. Mae taflenni gwybodaeth ar gael yn yr Ofalaeth – os nad oes rhai ar gael yn eich eglwys chi, gofynnwch i Mair am rai, os gwelwch yn dda, neu ewch i'r wefan: www.llanw.org.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Colosiaid 2:6-10 (BCND tud.221 / BCN: tud.202)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 25^{ain} Ionawr 2015 (BCND tud.860 / BCN: tud.784)

Darlleniad y Dydd

Sechareia 4:1-6


www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n gwasanaethau ar draws Bro Aled. A hithau'n ddydd dathlu cariad yng Nghymru heddiw, diolchwn am gariad Duw sydd bob amser drosom (Salm 103:11) ac sy'n sylfaen a gwraidd bywyd pob Cristion. Wrth i ni ystyried mor fawr yw cariad Duw tuag at ei bobl, gweddiwn am i'r cariad hwnnw ddod yn realiti cynyddol yn ein bywydau ni a'n cydnabod yng nghanol pob siom, pryder a cholled. Derbyniwn wahoddiad Iesu i fynd ato gan ymddiried ynddo a rhyfeddu ei fod Ef yn 'Waredwr cryf i'r gwan'.

Trown heddiw at un arall o'r proffwydi llai cyfarwydd yn y Beibl. Sechareia yw'r llyfr olaf ond un o'r Hen Destament ac mae'n llawn gweledigaethau symbolaidd o'r hyn oedd i ddigwydd i bobl Dduw mewn amser digon anodd yn eu hanes. Cafodd Jerwsalem ei dinistrio, a'r genedl ei chaethgludo i Fabilon. Ond er hyn, mae Duw yn rhoi neges o obaith i'w bobl yn eu hangen, a'r neges honno oedd bod brenin am ddod i ennill buddugoliaeth ac achub. (Sechareia 9:9)

Er fy mod i'n hoff o chwaraeon yn gyffredinol, tydi golff ddim yn ffefryn gen i. Gallaf edrych ar ychydig ar y teledu, ond mae ceisio chwarae'r gêm yn gamgymeriad! Oherwydd diffyg profiad, fy nhactegau golffio yw trio taro'r bêl gyda'm holl nerth gan obeithio y bydd yn glanio yn ymyl y twll. Yn naturiol yr hyn sy'n digwydd gan amlaf yw methu taro'r bêl a mynd yn fwy a mwy rhwystredig wrth i hynny ddigwydd drosodd a throsodd! Wrth gwrs, mae pob golffwr profiadol yn gwybod mai techneg yw'r peth allweddol wrth daro pêl golff yn hytrach na nerth y golffwr.

Yn y rhan a ddarllenwn o bennod 4 Sechareia ceir adnod arbennig sy'n dangos rhywbeth tebyg am waith Duw hefyd. Nid yw Duw yn ddiybnnol ar nerth na niferoedd dynol. Yn adnod 6 gwelwn: 'Nid trwy lu ac nid trwy nerth, ond trwy fy ysbryd,' medd Arglwydd y Lluedd.' Mae hyn yn gysur i'r Cristion oherwydd yn aml gallwn ddigalonni oherwydd ein maint neu wendid corfforol. Ond mae'r adnod yma'n ein hatgoffa nad cryfder dynol na niferoedd helaeth sydd ei angen ar i Dduw weithredu ei fwriadau, ond yn hytrach gwaith goruwchnaturiol ei Ysbryd. Yr Ysbryd Glân sy'n dangos i ni ein hangen am faddeuant, ac yn ein harwain at groes Iesu i dderbyn y fffisig ganddo Ef sydd ddim i'w gael gan y byd. Yr Ysbryd sy'n cadarnhau ein bod ar ôl ymddiried yn Iesu bellach yn blant i Dduw. Mae'r Ysbryd hyd yn oed yn ein cynorthwyo mewn gwendid, gan ymbil drosom pan nad ydym yn gwybod beth i weddio. (Rhufeiniaid 8:26) Beth bynnag yw ein sefyllfa felly, beth am roi llai o sylw i nerth, maint a gallu dynol, a gofyn yn hytrach ar i Ysbryd Duw weithio'n nerthol ynom ni a'n heglwys er gogoniant i'r Arglwydd?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 25^{ain} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 27^{ain} • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 29^{ain} • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 30^{ain} • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Gwener – Sul 30^{ain} – 1^{af} • **Aduniad Souled Out (15 oed+)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 30ain – Chwefror 1af.
- Sul nesaf – 1^{af} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 25^{ain} Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 1^{af} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 25^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun – 26^{ain} Cymdeithas Llansannan – Bydd Radio Cymru yn recordio Talwrn y Beirdd yn y Festri am 7.00.
- Iau – 29^{ain} Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf – 1^{af} Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 25^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf – 1^{af} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 25^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 1^{af} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 25^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 1^{af} Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 25^{ain} Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00, ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf – 1^{af} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.